y Goleuad

EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU · GOLEUNI Y BYWYD

CYFROL CXXXVII RHIF 50 DYDD GWENER, RHAGFYR 11, 2009 Pris 40c

CYFARFOD COMISIYNU GWENNO TEIFI

Cafwyd noson i'w chofio yn Salem, Dolgellau nos Fawrth, Tachwedd 10fed pan gynhaliwyd Cyfarfod Comisiynu Gwenno Teifi yn Swyddog Ieuenctid gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn Henaduriaeth Gorllewin Gwynedd, Cylch Meirionnydd ac yng Ngogledd Cymru.

'Roedd y Festri eang yn llawn gryn ddeng munud cyn amser dechrau gyda phobl wedi teithio o wahanol rannau o'r Henaduriaeth ynghŷd â theulu a llu o gyfeillion Gwenno o wahanol rannau o Gymru. Arweiniwyd yr addoliad afiaethus ar gychwyn y cyfarfod gan y Dr Owain Edwards ac Andras Iago a gosodwyd cywair y cyfarfod gyda geiriau yr emyn cyntaf; "Safwn a chodwn ein cân / Cans llawenydd ein Duw yw ein nerth". Ac yn wir, 'roedd y llawenydd hwn yn atseinio yn y moliant. Yna daeth y Parch. Gwyn Rhydderch, Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid ymlaen i adrodd hanes yr alwad ac i gyflwyno Gwenno. Pan ymgeisiodd Gwenno am y swydd 'roedd yn gweithio yn y Tŷ Cenhadol yn Amsterdam a bu'n rhaid iddi hedfan i Gaerdydd i gael ei chyfweld. Oherwydd bod niwl trwchus 'roedd yr awyren yn gorfod aros ei thro i lanio ac roedd hi gryn ddwyawr yn hwyr erbyn i Gwenno gyrraedd ei chyfweliad. Ond er gwaetha'r cychwyn anffodus yna fe ddaeth yn glir inni'n fuan bod yma ferch ifanc arbennig iawn, yn hoffus a siriol, yn gadarn ei barn, yn fwrlwm o frwdfrydedd ac egni a'i chariad at yr Arglwydd Iesu yn disgleirio trwy bopeth a wnai ac a ddywedai. Mynegodd y Llywydd, Y Barchedig Megan Williams, ei llawenydd o gael comisiynu Gwenno i'r gwaith – gwaith y mae hi eisoes wedi ymdaflu iddo yn gydag afiaeth. (Mae hi eisoes wedi sefydlu Clwb Ieuenctid Cristnogol yn Nolgellau ac yn cychwyn un arall yn Nyffryn Ardudwy ganol Tachwedd. Bydd yn dechrau ar y gwaith yn ardaloedd Tywyn a Ffestiniog ddechrau'r flwyddyn nesaf.) – Yna safodd y gynulleidfa gref i'r Comisiynu ac i fod yn dystion i'w hymrwymiad.

Tro Gwenno ei hun i ymateb oedd hi wedyn a chyflwynodd ei thystiolaeth gyda hiwmor a didwylledd amlwg. Adroddodd fel y daeth i adnabod yr Arglwydd Iesu Grist pan yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Aberystwyth ac wrth i'r adnabyddiaeth ddyfnhau, ac o ddod i amgyffred maint ei gariad Ef tuag atom ni, fe benderfynodd gyflwyno'i bywyd iddo. Teimlai ei bod wedi ei harwain i'r gwaith gyda phobl ifanc ac y mae ar dân i gyflwyno yr Iesu rhyfeddol – "amazing"! – hwn i bawb. Offrymwyd gweddi gywir dros Gwenno a'i gwaith gan un o'i chyfeillion coleg, Andras Iago ac wedi inni ganu am 'y cariad fel y moroedd a'r tosturiaethau fel y lli' daeth Rhys Llwyd, un arall o'i chyfeillion coleg, ymlaen i gyflwyno'r Gair. Tystiodd yntau'n huawdl i gariad Duw yn Iesu Grist – ac anogodd ni'n daer i roi'n hunain yn Ei Law. 'Tydi hi ddim yn ddigon ei ganmol a'i gymeradwyo'n unig, meddai. Rhaid i ni roi'n bywydau yn ei law ac ymroi o ddifrif i gerdded Ffordd Bywyd yn ei gwmni a rhoi ein hunain i'w ewyllys.

Estynnwyd Croeso'r Henaduriaeth, yn arbennig Cylch Meirionnydd i Gwenno gan Mr Edward Owen, Dyffryn Ardudwy a chroeso'r Gwasanaeth Plant a Ieuenctid gan y Cyfarwyddwr. Yn absenoldeb anorfod Y Parch. R. O. Roberts, Llywydd Pwyllgor Bywyd a Thystiolaeth yr Henaduriaeth, estynwyd croeso i Gwenno ac offrymwyd gweddi ddwys dros y gwaith gan ein Hysgrifennydd Cyffredinol, Y Parch. Ifan Roberts. Daethpwyd a'r cyfarfod i ben trwy ymbil ar gân: "Air disglaer Duw dyro d'olau i Gymru heddiw, Tyrd Ysbryd Glân rho dy dân i ni…" 'Roedd chwiorydd croesawus Salem wedi paratoi lluniaeth ysgafn ar gyfer pawb a chafwyd orig i gyfeillachu a sgwrsio uwch paned cyn troi am adre. Yn sicr cawsom gyfarfod i'n hysbrydoli, yn llawn gobaith a llawenydd Efengyl Iesu Grist.. Noson Lawen yng ngwir ystyr y gair! Gweddiwn dros Gwenno, y bydd ei brwdfrydedd dros ei Harglwydd yn heintus ac y bydd ei gwaith yn dwyn ffrwyth.

Megan Williams